Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

# Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

# Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-78859-532-2

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

## Cynnwys Tudalen

Cyflwyniad 3

1 Rheolau Brandio / Logos 4

1.1 Brandio a Logos 4
1.2 Logo'r EMFF 4
1.3 Maint 4
1.4 Lle gwag 5
1.5 Cynghorion 6
1.6 Gair i gall 6
1.7 Cyllid o ffynonellau amrywiol 6

2 Placiau 7

3 Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus 8

3.1 Hysbysebion swyddi 8
3.2 Datganiadau i'r wasg 8
3.3 Eich gwefan 9
3.4 Gwybodaeth/deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill 9
3.5 Diwrnod Ewrop 10

4 Gwybodaeth i Fuddiolwyr / Cyfranogwyr 10

5 Y Gymraeg a Datblygu Cynaliadwy 10

6 Rhagor o wybodaeth 10

Atodiad 1 Taflen Logos 11

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

## Cyflwyniad

Cafodd y canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd hyn eu paratoi gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod mesurau'n ymwneud â gwybodaeth a chyhoeddusrwydd yn rhan annatod o'r trefniadau i roi prosiectau ar waith.

Un o amodau cael cyllid gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) yw bod y corff sy'n derbyn yr arian yn cydnabod y cymorth ariannol a roddwyd iddo. Caiff yr amod hwn ei gynnwys yn y llythyr yn cymeradwyo'r prosiect. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymweliadau Archwilio a Dilysu, bydd ei swyddogion yn cadarnhau bod y cymorth a gafwyd gan yr UE yn cael ei gydnabod yn briodol yn holl ddogfennau'r prosiect ac mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd a deunyddiau eraill sy'n rhoi gwybodaeth am y prosiect, gan gynnwys gwybodaeth electronig. Mae'n bosibl hawlio rhan o'r grant, neu'r grant cyfan, yn ôl os na chaiff y cymorth ariannol ei gydnabod.

Mae'r canllawiau'n esbonio sut y gall noddwyr a buddiolwyr y prosiect fodloni'r gofynion cyhoeddusrwydd bob tro y bydd yn briodol iddynt wneud hynny ac maent hefyd yn nodi'r rhai y dylid cysylltu â nhw i gael rhagor o wybodaeth a chyngor ac, os yw'n berthnasol, i gael cymeradwyaeth (e.e. maint logo).

Bydd yn rhaid i noddwyr prosiectau gynnwys darpariaethau tebyg yn eu trefniadau cytundebol â darparwyr.

## Costau cyhoeddusrwydd

Os yw'r rheolau cymhwysedd yn caniatáu, gellir cynnwys costau cyhoeddusrwydd fel rhan o gostau cymwys y prosiect. Yn gyffredinol, nid oes raid i brosiectau buddsoddi cyfalaf ddefnyddio logos yr UE ar eu gwaith papur, ar eu gwefan neu ar unrhyw ohebiaeth arall yn ymwneud â'r cwmni. Fodd bynnag, os yw cyhoeddusrwydd yn ymwneud yn benodol â buddsoddiadau cyfalaf newydd, bydd angen i ymgeiswyr newydd ystyried y canllawiau 'cyhoeddusrwydd'. Os bydd prosiectau refeniw ar waith am dros flwyddyn, bydd angen cynnwys logos ar yr holl ddeunyddiau'n gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys gwefannau.

## Cyhoeddi manylion prosiectau ar wefan Llywodraeth Cymru

Dylai noddwyr prosiectau nodi y caiff manylion prosiectau a gymeradwyir eu cynnwys ar wefan Llywodraeth Cymru, a hynny'n unol â Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd y manylion yn cynnwys enw'r buddiolwr, enw'r prosiect a maint y grant a gafodd y prosiect gan EMFF.

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at brosiectau a gymeradwyir drwy ddulliau eraill hefyd (e.e. datganiadau i'r wasg, hysbysebion, llyfrynnau, digwyddiadau etc.).

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

# 1 Rheolau Brandio / Logos

## 1.1 Brandio a Logos

Wrth baratoi deunyddiau a chyhoeddiadau cyhoeddusrwydd yn ymwneud â phrosiectau a ariennir gan yr EMFF, rhaid cynnwys logo'r EMFF/Llywodraeth Cymru ar wynebddalen y ddogfen/deunydd h.y. ar y clawr blaen. Os nad yw'n bosibl cynnwys logos ar y clawr blaen, dylai'r holl logos ymddangos gyda'i gilydd naill ai ar y cefn neu'r tu mewn i'r clawr blaen.

## 1.2 Logo'r EMFF

Dylai'r logo ymddangos mewn lliw llawn bob amser.

***Sylwch y dylai is-bennawd yr UE bob amser ymddangos o dan faner yr UE.***

Dyma liwiau'r arwyddlun: Pantone Reflex Blue a lliw'r sêr yw Pantone Yellow. Mae fersiwn du a gwyn o'r logo ar gael **ond** ni chewch ei defnyddio heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru drwy Ruralnetwork@gov.wales. Dylech amlinellu'r petryal mewn du ac argraffu'r sêr mewn du ar gefndir gwyn. **Ni chewch** lungopïo'r logo lliw i gynhyrchu fersiwn du a gwyn.

Yn ddelfrydol, dylech atgynhyrchu'r logo ar gefndir gwyn. Ceisiwch osgoi cefndir amryliw. Os oes raid defnyddio cefndir lliw, rhowch forder gwyn o amgylch y logo. Sylwch fod ffrâm wen yn cael ei chynnwys yn awtomatig ar y fersiynau o'r logo ar gyfer dylunwyr.

Mae'r logo ar gael ar fformat JPEG cydraniad uchel er mwyn i ddylunwyr proffesiynol ei defnyddio mewn cyhoeddiadau i'w hargraffu. Gellir ei ddarparu ar fformatau eraill ar gais.

## 1.3 Maint

Os byddwch yn cynnwys nifer o logos eraill yn ogystal â'r logo hwn, mae'n dderbyniol ei leihau, cyn belled â bod y testun ar logo'r UE yn hawdd ei ddarllen.

Ni ddylid newid y math o deip a ddefnyddir na maint y teip lleiaf - sef 12 pwynt. Cewch chwyddo'r logo cyn belled ag y bod ansawdd yr atgynhyrchiad yn foddhaol. Rhaid i'r logo

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon


fod yn gymesur â'r holl logos eraill a ni ddylai'r un logo fod yn fwy amlwg na'r gweddill. Rhaid i'r testun fod yn hawdd ei ddarllen.

Os byddwch yn defnyddio'r logo gyda brandiau sefydliadau eraill, gofalwch ei fod yr un mor amlwg â'r gweddill drwy sicrhau bod uchder pob un yr un fath. Gellir gosod logos partneriaid eraill etc naill ai ar y chwith i logo'r EMFF neu mewn rhes oddi tano ac **ni chaiff y rhain fod yn fwy na logo cyllido'r UE**.

Mae'r logos ar gael drwy'r e-bost gan [Ruralnetwork@gov.wales](mailto:Ruralnetwork@gov.wales) ac maent wedi'u cysodi ymlaen llaw gan dîm dylunio Llywodraeth Cymru.

## 1.4 Lle gwag

Rhaid gofalu bod lle gwag o amgylch y logo, a hynny i greu argraff weledol, heb i elfennau eraill ymyrryd e.e. logos eraill, testun etc. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys lle gwag yn ei logo.




## 1.5 Cofiwch/Peidiwch

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

**Peidiwch â newid y logo.**

**Rhaid atgynhyrchu'r logo o'r gwaith celf digidol bob amser.**

- Peidiwch â symud yr elfennau
- Peidiwch â newid y teip
- Peidiwch â newid y lliwiau
- Peidiwch â chynnwys dim yn y lle gwag
- Peidiwch â newid y testun
- Peidiwch ag ystumio'r ddelwedd

**PEIDIWCH** â defnyddio fersiwn JPEG ar gefndir lliw gan y byddai hynny'n creu blwch gwyn o gwmpas y logo. Dylech ddefnyddio fersiwn **EPS** yn yr achos hwn. Yr unig eithriad i'r rheol hon yw pan fydd y cefndir yn cynnwys nifer o liwiau a'r logo'n anodd ei weld.

## 1.6 Gair i gall

I drin fersiynau JPEG mewn dogfen Word, ewch i insert/picture/from file a'i mewnosod fel y bo'n briodol. Os ydych am newid maint y lluniau, cliciwch ar y llun i amlygu'r sgwariau bach du ar flwch y ddelwedd ac yna cliciwch ar unrhyw un o'r marciau yn y corneli, daliwch 'shifft' i lawr a llusgwch y blwch i mewn neu allan nes bydd y maint yn iawn.

## 1.7 Cyllid o ffynonellau amrywiol

Os byddwch yn cael cyllid o fwy nag un ffynhonnell, rhaid cynnwys gwaith brandio'r cyrff eraill h.y. yr EMFF a Chyfoeth Naturiol Cymru, a dangos logo'r cyrff hynny.

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Cewch ragor o wybodaeth am ddefnyddio logo'r EMFF yn Atodiad 1.

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

## 2. Placiau

Yn unol â Rheoliadau'r UE, mae'n rhaid i fuddiolwyr dynnu sylw at y ffaith eu bod wedi cael arian gan yr EMFF o dan rai amgylchiadau, drwy gynnwys y wybodaeth ar boster, plac neu fwrdd posteri.

Mae placiau dwyieithog ar gael am ddim i unrhyw noddwr neu fuddiolwr. Caiff un plac ei anfon yn awtomatig pan gaiff y prosiect ei gymeradwyo a gallwch ofyn am ragor drwy gysylltu ag Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru: Ruralnetwork@gov.wales.

Os yw'n bosibl, dylid gosod y plac yn y brif fynedfa/y dderbynfa, neu'r rhan fwyaf cyhoeddus o'r adeilad. Rhaid gosod pob plac mewn man lle bydd yn hawdd i'r cyhoedd, staff, cyfranogwyr a buddiolwyr eraill ei weld.

Tra bydd y prosiect ar waith, bydd y buddiolwyr yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cymorth a gafwyd gan EMFF fel a ganlyn:

| **Math o brosiect** | **Gofynion** |
|---|---|
| (a) prosiectau nad ydynt yn perthyn i gategorïau (b) a (c) isod – ac os yw cyfanswm y cymorth cyhoeddus yn fwy na 10,000 ewro | O leiaf un poster sy'n rhoi gwybodaeth am y prosiect (maint A3 o leiaf) ac sy'n tynnu sylw at y cymorth ariannol a gafwyd gan EMFF. Rhaid sicrhau ei bod yn hawdd i'r cyhoedd ei weld drwy ei osod mewn lle amlwg fel mynedfa'r adeilad. |
| (b) prosiectau sy'n ariannu gwaith seilwaith neu waith adeiladu ac mae cyfanswm y cymorth cyhoeddus yn fwy na 500,000 ewro | Bwrdd posteri dros dro sy'n ddigon mawr i'w osod mewn man lle bydd yn hawdd i'r cyhoedd ei weld, ac sy'n tynnu sylw at y cymorth ariannol a gafwyd gan EMFF. Rhaid cynnwys y logo ar y bwrdd a rhaid i'r logo lenwi o leiaf 25% ohono. |
| (c) Prosiectau sy'n cael cymorth ariannol o dros 500,00 ewro at ei gilydd <u>neu</u> brosiectau sy'n cynnwys prynu gwrthrych ffisegol neu brosiectau sy'n ariannu gwaith seilwaith neu waith adeiladu | Dim mwy na thri mis ar ôl cwblhau'r prosiect, rhaid gosod plac neu fwrdd posteri parhaol o faint sylweddol, ac sydd wedi'i leoli mewn man lle bydd yn hawdd i'r cyhoedd ei weld. Ar y plac, bydd enw a phrif nod y prosiect i'w gweld a bydd yn tynnu sylw at y cymorth ariannol a gafwyd gan EMFF. |

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

## 3. Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus

Dywedwch wrthym am unrhyw gyhoeddusrwydd a gaiff y prosiect yn y wasg a chofiwch ein cynnwys ar eich rhestr bostio ar gyfer dosbarthu datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, cylchlythyrau etc. Cysylltwch ag Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru: Ruralnetwork@gov.wales at y diben hwnnw.

Mae'n bosibl y byddai diddordeb gan staff Llywodraeth Cymru a/neu un o Ysgrifenyddion y Cabinet neu un o Weinidogion Cymru ddod i ddigwyddiad i lansio'r prosiect. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw ffotograffau / DVDs o'ch prosiect, a chofiwch fod posibilrwydd i'r rhain gael eu defnyddio fel rhan o'n hymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ein hunain i hyrwyddo'r EMFF.

Dylech gadw cofnod o unrhyw gyhoeddiadau ffurfiol ac anffurfiol, erthyglau yn y wasg neu mewn cylchgronau, cyfweliadau â'r wasg (y teledu a'r radio) ac unrhyw ddigwyddiadau lansio swyddogol i ddangos y camau a gymerwyd i dynnu sylw at y prosiect. Bydd y rhain hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro unrhyw sylw a gaiff eich rhaglen yn y wasg.

Mae'n ofynnol esbonio yn nhestun unrhyw ddogfen e.e. hysbyseb swydd, datganiad i'r wasg, poster etc., sut y mae'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth wedi cyfrannu at eich prosiect. Mae rhai enghreifftiau isod:

### 3.1 Hysbysebion swydd

Rhaid cynnwys y logos ar bob hysbyseb swydd. Os nad oes digon o le mewn hysbyseb gellir defnyddio'r testun i gyfeirio at y cyllid a gafwyd.

**Saesneg**
This post is part-funded through the European Maritime and Fisheries Fund, which is funded by the Welsh Government and the European Union.

**Cymru**
"Ariennir y swydd hon yn rhannol drwy Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd."

Os ariannwyd y prosiect yn llawn, dylid newid y geiriad i ddangos hynny.

### 3.2 Datganiadau i'r wasg

Rhaid i bob datganiad i'r wasg, erthygl neu hysbyseb yn ymwneud â phrosiect neu fuddiolwr (e.e. yn cyhoeddi bod y prosiect wedi'i gymeradwyo, digwyddiad i'w lansio) gydnabod y cyllid a gafwyd gan EMFF. Fel arfer, nid yw logos yn ymddangos ar ddatganiadau i'r wasg. Gan hynny, rhaid cydnabod y gronfa yn nhestun y datganiad.

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

**Saesneg**
This project has received funding through the European Maritime and Fisheries Fund, which is funded by the European Union and the Welsh Government.

**Cymraeg**
Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

## 3.3 Eich gwefan

Dylai gwefannau noddwyr y prosiect gydnabod y cyllid a gafwyd gan yr UE drwy gynnwys y logo, o leiaf, ar hafan y prosiect a dylid hefyd gynnwys dolen at wefan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymwneud â'r EMFF. https://ec.europa.eu/fisheries/cfp/emff/. Os oes logos eraill ar y dudalen, yna rhaid i bob logo fod yr un mor amlwg â'i gilydd. Mae'r logos ar gael ar fformat EPS, JPEG a GIF. Hefyd, dylid cynnwys disgrifiad byr o'r prosiect, ei amcanion a'r canlyniadau.

Rydym yn disgwyl i dudalennau cyfryngau cymdeithasol eich prosiect gynnwys cydnabyddiaeth o'r cyllid a gafwyd gan EMFF a Llywodraeth Cymru, a hynny ar ffurf logos a thestun. Nid ydym yn disgwyl i chi gynnwys y rhain ym mhob neges a gaiff ei phostio.

## 3.4 Gwybodaeth/deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill

Rhaid dangos y logo'n glir ym mhob cyhoeddiad/taflen/llyfryn yn ymwneud â'r prosiect.

Dylech ddefnyddio'r logo ar bob eitem sy'n hyrwyddo prosiectau a ariennir gan yr UE (baneri, stondinau codi, cyflwyniadau gweledol, beiros, pensiliau, rheffynnau, mygiau, torchau allweddi, bagiau, crysau T etc) a dylid ei osod ar yr ochr dde os yw'n bosibl. Ym mhob achos, dylai'r logo fesur o leiaf 45mm o led x 33mm o uchder a rhaid i'r testun fod yn eglur. Os ydych am gynhyrchu eitemau hyrwyddo bach, fel beiros, cylchoedd allweddi etc, ac os yw lle yn brin, cysylltwch at Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru drwy anfon e-bost i Ruralnetwork@gov.wales <mailto:Ruralnetwork@gov.wales> i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r faner heb yr is-bennawd.

Dylid defnyddio'r logo ar yr holl bapur ysgrifennu corfforaethol (penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, padiau ysgrifennu, cardiau busnes etc.) yn ymwneud â phrosiectau'r EMFF a dylid ei osod ar yr ochr dde os yw hynny'n bosibl. Ym mhob achos, dylai'r logo fesur o leiaf 45mm o led x 33mm o uchder a rhaid i'r testun fod yn eglur.

Rhaid dangos y logo mewn lle amlwg (e.e. ar stondinau a baneri ac mewn dogfennau) ac mewn unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd eraill a ddefnyddir mewn cynadleddau, seminarau, ffeiriau ac arddangosfeydd yn ymwneud â phrosiectau'r EMFF. I sicrhau bod logo yn cael ei arddangos yn briodol ar stondinau baneri rholio/Nomadic etc., anfonwch ddrafft o'ch gwaith celf arfaethedig at Ruralnetwork@gov.wales i'w gymeradwyo.

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

### 3.5 Diwrnod Ewrop

Caiff noddwyr prosiectau eu hannog i godi baner Ewrop uwchben eu safle yn ystod wythnos 9 Mai (Diwrnod Ewrop).

## 4. Gwybodaeth i Fuddiolwyr / Cyfranogwyr

Rhaid i noddwyr prosiectau ofalu bod eu buddiolwyr/cyfranogwyr yn gwybod eu bod yn cymryd rhan mewn cynllun sy'n cael ei gyllido gan yr UE. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos y rhai sy'n manteisio ar gynlluniau gwaith a hyfforddiant, a busnesau a grwpiau cymunedol sy'n manteisio ar gymorth ariannol gan Ewrop.

## 5. Y Gymraeg a Datblygu Cynaliadwy

Yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ac Iaith Pawb, y Cynllun Gweithredu dros Gymru ddwyieithog, pan fo modd, dylai unrhyw gyhoeddusrwydd yn ymwneud â'ch prosiect fod yn ddwyieithog. Gellir cynnwys cyhoeddusrwydd, gan gynnwys costau cyfieithu, fel rhan o gostau cymwys y prosiect, felly trafodwch hyn gyda Swyddog Datblygu'ch Prosiect pan fyddwch yn dechrau paratoi'ch cais am gyllid Ewropeaidd.

Yn ogystal â hyn, dylech hefyd ystyried yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy wrth gynhyrchu llenyddiaeth brintiedig, a defnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu.

## 6. Rhagor o wybodaeth

Os hoffech ragor o gyngor a chanllawiau ynghylch gwybodaeth a chyhoeddusrwydd yn ymwneud â'ch prosiect, cysylltwch â'r Rheolwr Cyfathrebu drwy'r e-bost: Ruralnetwork@gov.wales, gan ddefnyddio **Cyhoeddusrwydd a Brandio** fel teitl eich e-bost.

© Hawlfraint y Goron
Sylwch nad yw maint y logos yn y ddogfen hon yn gywir ac ni ddylech eu copïo o'r ddogfen hon

**Atodiad 1**

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop
## Canllawiau Brandio - Crynodeb
## Taflen Logos

| Math o logo | Pryd i'w ddefnyddio |
|---|---|
| UE EMFF/ Llywodraeth Cymru (lliw) | Ar bob dogfen, pob cyhoeddiad ar gefndir lliw a gwefannau'n ymwneud â gweithgareddau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. |
| Baner yr UE yn unig ond heb y datganiad (lliw neu ddu a gwyn) | Ar eitemau hyrwyddo bach iawn os yw lle yn brin, gyda chaniatâd ysgrifenedig Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru. |
| UE EMFF/Llywodraeth Cymru (du a gwyn) a'r UE yn unig | O dan amgylchiadau eithriadol, gyda chaniatâd ysgrifenedig Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru, ar ddogfennau Word safonol os oes cefndir gwyn i'r cyhoeddiad. |